

Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Gweithgarwch Economaidd

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhoi daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymhell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

Gweithgarwch Economaidd	Sir Gaerfyrddin				Cymru				Cymru a Lloegr			
	2011		2021		2011		2021		2011		2021	
Yr holl breswylwyr arferol rhwng 16 a 74 oed	132,930		155,487		2,245,166		2,559,416		41,126,540		48,566,371	
Gweithgarwch Economaidd												
Gweithiwr: Rhan-amser	18,475	13.9%	18,146	11.7%	313,022	13.9%	302,900	11.8%	5,646,290	13.7%	5,778,651	11.9%
Gweithiwr: Amser llawn	44,839	33.7%	46,683	30.0%	799,348	35.6%	815,759	31.9%	15,815,912	38.5%	16,582,502	34.1%
Hunangyflogedig	14,642	11.0%	15,098	9.7%	194,029	8.6%	209,086	8.2%	3,987,661	9.7%	4,599,115	9.5%
Di-waith	4,962	3.7%	3,335	2.1%	96,689	4.3%	63,634	2.5%	1,799,536	4.4%	1,376,363	2.8%
Myfyriwr amser llawn	3,299	2.5%	2,612	1.7%	73,647	3.3%	55,969	2.2%	1,410,470	3.4%	1,112,219	2.3%
Economaidd Anweithgar												
Wedi ymddeol	24,097	18.1%	43,170	27.8%	361,501	16.1%	631,659	24.7%	5,682,192	13.8%	10,513,713	21.6%
Myfyriwr (yn cynnwys myfyriwr amser llawn)	5,992	4.5%	6,422	4.1%	133,880	6.0%	145,181	5.7%	2,389,711	5.8%	2,740,634	5.6%
Gofalu am gartref neu deulu	5,007	3.8%	6,296	4.0%	86,396	3.8%	109,604	4.3%	1,781,530	4.3%	2,317,340	4.8%
Salwch tymor hir neu'n anabl	9,055	6.8%	9,710	6.2%	140,760	6.3%	151,321	5.9%	1,714,894	4.2%	2,025,621	4.2%
Arall	2,562	1.9%	4,015	2.6%	45,894	2.0%	74,303	2.9%	898,344	2.2%	1,520,213	3.1%

Dadansoddiad:

- Yn Sir Gaerfyrddin mae diweithdra wedi gostwng 1.6 pwynt canran, ac mae'r gostyngiad hwn mewn diweithdra i'w weld ar draws Cymru a Lloegr hefyd. Mae'n awgrymu bod Sir Gaerfyrddin yn cyd-fynd â thueddiadau cyflogaeth cenedlaethol.
- Mae 43,170 (27.8%) o bobl y sir wedi ymddeol, cynnydd o 9.7 pwynt canran, cynnydd pwynt canran uwch nag yng Nghymru (8.6) a Chymru a Lloegr (7.8). Mae cyfran y trigolion wedi ymddeol o 27.8% bellach bron mor uchel â'r gyfran mewn cyflogaeth llawn amser 30%. Nid yw hyn yn wir yng Nghymru, nac yn Lloegr a Chymru, er gwaethaf cynnydd sylweddol yn y nifer sydd wedi ymddeol.
- Mae Sir Gâr yn dangos cyfartaledd uwch o bobl sy'n sâl yn y tymor hir neu'n anabl. Mae gan y Sir lefelau uwch na'r cyfartaledd o hunangyflogaeth..

Diffiniad:

- Mae pobl oed 16 a throsodd yn economaidd weithgar os oeddent, rhwng 15 Mawrth a 21 Mawrth 2021 *mewn cyflogaeth (yn gyflogedig neu'n hunan-gyflogedig) * yn ddi-waith, ond yn chwilio am waith ac yn gallu dechrau ymhen pythefnos *yn ddi-waith, ond yn aros i ddechrau swydd sydd wedi ei chynnig a'i derbyn.
- Mae'n fesur a ydy person yn gyfranogwr gweithgar yn y farchnad lafur yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r rhai sy'n economaidd anweithgar dros 16 oed ac heb swydd rhwng 15 Mawrth i 21 Mawrth 2021 a heb chwilio am waith rhwng 22 Chwefror a 21 Mawrth 2021 neu'n methu dechrau swydd ymhen pythefnos.